ClwydAlyn

**“Together, we will end poverty”**

## Cyflwyniad ac unrhyw newidiadau ers yr asesiad Rheoleiddio diwethaf

Roedd dyfarniad rheoleiddio diwethaf ClwydAlyn yn ddyfarniad dros dro ym mis Mawrth 2022, a derbyniodd sgôr cydymffurfiaeth gwyrdd ar faterion yn ymwneud ag atebolrwydd ariannol a llywodraethu *(gan gynnwys gwasanaethau preswylwyr)*.

Ers hynny, rydym wedi cymeradwyo hunanasesiadau blynyddol sydd wedi cael eu hystyried gan breswylwyr a’u cymeradwyo gan y Bwrdd yn flynyddol, ynghyd â chynllun gwella cydymffurfiaeth. Cyflwynwyd y rhain i’r rheoleiddiwr, a chafodd camau gweithredu eu monitro gan y Bwrdd.

Ni chafwyd unrhyw newidiadau anffafriol o bwys i ansawdd y gwasanaeth, ein trefniadau ymgysylltu â phreswylwyr a hyfywedd ariannol ers y dyfarniad diwethaf. O safbwynt llywodraethu cafwyd un newid allweddol – cymeradwyodd y Bwrdd sefydlu cwmni menter ar y cyd, Onnen, gyda Cartrefi Conwy ar 17 Ionawr 2023 a dirprwywyd swyddogion i benodi dau aelod staff ClwydAlyn i Fwrdd Onnen. Mae Bwrdd ClwydAlyn yn derbyn adroddiadau cynnydd a pherfformiad rheolaidd ac yn cymeradwyo’r cyfrifon blynyddol.

Penodwyd Cadeirydd newydd a thri aelod newydd i’r Bwrdd ym mis Medi 2023. Roedd hyn oherwydd bod pedwar aelod wedi gwasanaethu am y tymor o naw mlynedd. Yn ogystal â hyn, mae’r Tîm Gweithredol wedi newid rhywfaint yn ystod 2024; cafodd un swydd ei dileu ac aliniwyd y dyletswyddau hynny, a phenodwyd dau aelod newydd i lenwi swyddi gwag.

Derbyniodd ClwydAlyn drosglwyddiad ymrwymiadau o 12 cartref gan Ymddiriedolaeth Dai Rosa Hovey yn 2023 gan ychwanegu £1 miliwn i’r fantolen.

Mae gan ClwydAlyn god llywodraethu sy’n adlewyrchu arfer gorau yn y sector a chaiff ei adolygu’n flynyddol gan y Bwrdd (Eitem 6.4, 16 Rhagfyr 2024).

## Galluogi preswylwyr i ddylanwadu ac ymgysylltu

Mae gan ClwydAlyn drefniadau cadarn i alluogi preswylwyr i ddylanwadu ac ymgysylltu. Mae’r Pwyllgor Preswylwyr yn cynrychioli’r amrywiaeth o ddeiliadaethau eiddo sy’n berchen i ClwydAlyn ac sy’n cael eu rheoli ganddo. Ar hyn o bryd mae 177 o denantiaid yn aelodau o’n grŵp aelodaeth “Dylanwadwch Arnom Ni”, ac maent yn neilltuo eu hamser i ddylanwadu ar fodelau datblygu polisi a darparu gwasanaethau. Mae preswylwyr hefyd yn aelodau o’n panel cwynion ac maent yn adolygu pob math o gwynion ffurfiol yn chwarterol i gadw llygad ar drefniadau dysgu a gwella sefydliadol.

Mae tystiolaeth o ddylanwad preswylwyr yn ystod y cyfnod diweddar yn cynnwys datblygu set o ddisgwyliadau gwasanaeth o’r enw “Ein Haddewid,” siapio’r tendr ar gyfer cynnal tiroedd, adolygu cydrannau a safonau taliadau gwasanaeth, pennu rhenti blynyddol, y Polisi Rhenti a datblygu a chyflwyno gwasanaeth DIY.

Wrth baratoi'r hunanasesiad blynyddol, bydd y Pwyllgor Preswylwyr yn derbyn dogfen ddrafft sy'n cynnwys yr holl safonau sy'n ymwneud â darpariaeth gwasanaeth, ymgysylltu a dylanwadu. Gofynnir iddynt ystyried a ydynt yn "adnabod" ClwydAlyn yn yr hunanasesiad. Yna, cyflwynir y fersiwn terfynol o'r hunanasesiad i'r Bwrdd i'w gymeradwyo. Mae Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Preswylwyr yn aelodau o'r Bwrdd.

Yn ystod yr adolygiad eleni roedd y Pwyllgor Preswylwyr yn cytuno â sgoriau'r hunanasesiad ond gwnaeth hefyd nodi rhai meysydd i'w newid a'u gwella. Roedd un maes yn ymwneud â chynnig i feithrin mwy o ymddiriedaeth rhwng Swyddogion Tai a phreswylwyr trwy ddatblygu tudalennau gwe "eich cymuned".

Bydd hyn yn golygu y gall preswylwyr gysylltu â'u swyddog tai, ac y bydd modd i'r swyddog roi gwybod iddynt pa bryd y bydd ar gael ar ddiwrnod penodol yn eu hardal. Gall preswylwyr hefyd ofyn am ymweliadau, neu gysylltu â swyddog tai i roi gwybod am faterion penodol i'w harchwilio a'u hasesu. Yna gall preswylwyr weld pa faterion sydd wedi cael eu codi yn eu hardal er mwyn osgoi cysylltu â'r swyddog i roi gwybod am yr un materion. Mae hyn hefyd yn golygu bod y gymuned yn cael mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn lleol. Mae'r gwelliant hwn wedi cael ei ychwanegu at y cynllun Gwella Cydymffurfiaeth gan fod y dechnoleg eisoes yn ei lle ar borth y preswylwyr i alluogi ClwydAlyn i ddatblygu prosiect peilot.

## Rheoli Risg Strategol a Gweithredol

Mae gan ClwydAlyn set gadarn o risgiau strategol a gweithredol sy'n cael eu hadrodd gerbron pob un o gyfarfodydd y Bwrdd i gael sicrwydd a'u hadolygu. Ceir tystiolaeth drwy gydol y flwyddyn bod y Bwrdd yn cael ei gwestiynu a'i herio. Mae'r tîm gweithredol yn adolygu risgiau yn ddynamig, gan fwrw golwg ar yr amgylchedd allanol a mewnol a'r hinsawdd weithredu. Mae'r Pwyllgor Sicrwydd yn craffu ar unrhyw newidiadau a nodir a allai effeithio ar y tebygolrwydd y bydd risg yn digwydd neu effaith y risg (petai'n digwydd) a bydd y materion hyn yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Bwrdd, ynghyd â chamau lliniarol. Petai risg newydd yn dod i'r amlwg rhwng cyfarfodydd y Bwrdd ac mae'r risg hwnnw yn un a allai gael effaith ar ein gallu i gyflawni'r cynllun busnes neu Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a thargedau'r Cynllun Corfforaethol, bydd y Bwrdd yn cael gwybod am hyn a gofynnir am gymorth ar gyfer unrhyw gamau angenrheidiol i reoli neu liniaru'r risg. (Eitem 7.2, 23 Mai 2024 cymeradwyo Risg EICR ac Eitem 7.3, 19 Mawrth 2024 cymeradwyo risg Deddf Bartneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus Cymru 2023).

Cymeradwywyd Cynllun Corfforaethol 2025-2030 yng nghyfarfod y Bwrdd ar 18 Mawrth 2025. (Mae'r fframwaith rheoli risg presennol yn dal i fod yn weithredol). Mae fframwaith rheoli risg newydd yn cael ei ddatblygu. Bu'r Bwrdd yn ystyried risgiau strategol a gweithredol a'r camau i'w rheoli a'u lliniaru ynghyd â chytuno ar y fframwaith rheoli risg newydd (a sut bydd yn cael ei gyflawni drwy'r strwythur Llywodraethu) yn ei gyfarfod ar 20 Mai 2025 (Eitem 7.2, 20 Mai 2025). Dechreuodd y broses o nodi ac adolygu risgiau strategol a gweithredol ar gyfer cyfnod y cynllun newydd hwn gyda sesiwn hyfforddiant ar gyfer aelodau (a ddarparwyd gan Barcud Shared Services) yn ystod y diwrnod cynllunio strategol ym mis Tachwedd 2024. Dechreuodd y Bwrdd ac aelodau'r Pwyllgor nodi risgiau strategol yn ymwneud â'r cynllun corfforaethol newydd. Yn dilyn hyn

cynhaliwyd sesiynau adolygu gyda'r Pwyllgor ym misoedd Ionawr a Chwefror ac yna cynhaliwyd gweithdy i'r holl aelodau lle cytunodd y Bwrdd ar yr 'awydd' am bob risg, y tebygolrwydd y byddai'r risg yn digwydd a'i effeithiau, pe na byddai mesurau rheoli yn eu lle. Yna gofynnwyd i swyddogion nodi mesurau sicrwydd a chamau rheoli risg i ddod â'r risgiau hynny i lefel goddefiad derbyniol yn barod i'r Bwrdd eu hadolygu ym mis Mai.

## Cydymffurfiaeth â Safonau Rheoleiddio a Thystiolaeth

Mae ClwydAlyn wedi cynnal hunanasesiad llawn yn erbyn y safonau rheoleiddio diwygiedig ac mae'n credu y gall ddangos ei fod yn cydymffurfio'n llawn â phob un o'r safonau. Fodd bynnag, mae nifer bach o gamau gweithredu wedi'u nodi mewn cynllun gwella cydymffurfiaeth i gryfhau'r meysydd lle rydym yn cydymffurfio'n llawn, ond nid mor gyflawn neu mor gadarn ag y byddem yn dymuno gwneud.

## SR1 – Mae gan y sefydliad drefniadau arwain a llywodraethu strategol effeithiol sy'n ei alluogi i gyflawni ei ddiben a bodloni ei amcanion

Mae ClwydAlyn yn cydymffurfio â'r safon rheoleiddio hwn ac mae ganddo dystiolaeth i ddangos hyn. Rydym wedi nodi rhai camau gweithredu i wella cydymffurfiaeth yn 2025/26. Mae'r rhain yn cynnwys parhau i wella'r ffordd rydym yn defnyddio data EDI gweithwyr a phreswylwyr i lywio'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau, recriwtio a chadw staff, rhoi ein Strategaeth Ddata ar waith a datblygu Cofrestr Cydymffurfiaeth Gyfreithiol a Rheoleiddiol i'w hadolygu gan y Pwyllgor Sicrwydd.

Mae'r dystiolaeth o gydymffurfio yn cynnwys:

- Cynllun Busnes 30 mlynedd a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar 18 Mawrth 2025
- Cynllun Corfforaethol pum mlynedd newydd a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar 18 Mawrth 2025, yn dilyn ymgynghori cynhwysfawr a gweithio gyda staff, aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor, ac adolygu safbwyntiau a blaenoriaethau preswylwyr. Adrodd i'r Bwrdd ar gynnydd a chanlyniadau ddwywaith y flwyddyn, ynghyd ag adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a rheoli risgiau strategol bob chwarter, ac adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad a rheoli risgiau gweithredol yn y Pwyllgorau. Cyflwynwyd adroddiad y Bwrdd ar effaith a chanlyniadau'r strategaeth ar gyfer y pum mlynedd diwethaf ar 20 Mai 2025.
- Cynllun Dirprwyo a gymeradwywyd ar 19 Mawrth 2024.
- Adolygiad o Gylchoedd Gorchwyl y Bwrdd a'r Pwyllgor a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar 20 Mai 2025. Cymeradwywyd y set flaenorol ar 19 Mawrth 2024.
- Cymeradwyodd y Pwyllgor Sicrwydd y cylch gorchwyl ar gyfer adolygiad llywodraethu annibynnol ym mis Mawrth 2025. Mae'r broses gaffael yn mynd rhagddi.
- Adroddiadau ar y bwlch cyflog ar sail rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Pobl ar 14 Hydref 2024 a'u cyhoeddi ar y wefan.
- Derbyniwyd achrediad hyderus o ran anabledd Lefel 2 ym mis Chwefror 2025.
- Cyflwynwyd adroddiad am ddata EDI staff i'r Pwyllgor Pobl ym mis Mawrth 2025.
- Cyflwynwyd adroddiad am ddata EDI preswylwyr i'r Pwyllgor Preswylwyr ym mis Ebrill 2025.

- Darparwyd hyfforddiant gwrth-hiliaeth i'r Bwrdd a'r holl staff yn ystod 2024/2025.
- Mae cynllun cynhwysiant yn ei le a chaiff cynnydd ei adrodd yn rheolaidd (bob blwyddyn) i'r Pwyllgor Pobl – diweddariad diwethaf, 10 Mawrth 2025.
- Sefydlwyd grŵp i gynrychioli staff – y Fforwm Staff. Mae dau aelod o'r Fforwm Staff yn aelodau o'r Pwyllgor Pobl, ac mae'r Pwyllgor yn cynnal sesiwn "camera" blynyddol gydag aelodau staff i brofi'r diwylliant a'r hinsawdd adrodd annibynnol gan uwch arweinwyr.
- Mae'r Pwyllgor Pobl yn derbyn adroddiad ac yn ystyried effaith ac effeithlonrwydd rhwydweithiau staff a'r Fforwm Staff wrth lywio blaenoriaethau staff ar faterion yn ymwneud â gwobrau, lles, telerau ac amodau.
- Cynhaliwyd ymgyrch 'Stand Up Speak Out' i fynd i'r afael â throseddau casineb, a chafodd ffyrdd o weithio a hyfforddiant sy'n ystyriol o drawma eu cynnwys yn ein gwaith.
- Datblygwyd fframwaith penderfyniadau cynhwysol i'w roi ar waith wrth lunio polisïau a strategaethau newydd, daeth i rym ym mis Mawrth 2025.
- Sefydlwyd Bwrdd Amrywiaeth gyda set sgiliau a phrofiad priodol ar gyfer llywodraethu da, wedi'i gefnogi gan broses werthuso flynyddol a chynlluniau datblygu.
- Cafodd cynllunio olyniaeth sefydliadol cadarn ei adrodd i'r Pwyllgor Pobl ar 18 Ebrill 2024 a datblygwyd Dangosyddion Perfformiad newydd yn ymwneud â symudedd mewnol i'w monitro gan y Pwyllgor Pobl.
- Mae holl bapurau'r Bwrdd yn ystyried risg a sut i reoli risg.
- Cymeradwywyd y Strategaeth Ddata ac mae'n cael ei rhoi ar waith (2 Rhagfyr 2025).
- Cynhaliwyd adolygiad archwiliad mewnol blynyddol o integriti data a rheolaethau allweddol.
- Mae systemau TG newydd yn cael eu rhoi ar waith i wella data a dulliau o reoli data er mwyn bod yn sail i benderfyniadau da. Er enghraifft, mae CX Assets ar y gweill er mwyn cydgrynhoi data o ffynonellau niferus ar un llwyfan. Mae hyn yn cynnwys meddalwedd mapio GIS wedi'i chyfuno â data asedau i wella cynllunio a lliniaru risg drwy roi gwell dealltwriaeth ddaearyddol o'n cartrefi, prosiect 'Let's Get Digital' i ddigideiddio data sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth a oedd yn arfer cael eu cadw ar bapur.
- Mae'r Pwyllgor Sicrwydd yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar y broses o roi systemau TG newydd ar waith.
- Mae ymgysylltiad a dylanwad preswylwyr wrth galon y strwythur Llywodraethu ac mae'n dangos canlyniadau da ar draws sawl maes, gan gynnwys:
- ❖ dylanwad ar bennu rhenti
- ❖ adolygiad o daliadau gwasanaeth
- ❖ contract cynnal tiroedd
- ❖ dysgu o gwynion
- rôl Unigolyn Cyfrifol ar y bwrdd i fodloni gofynion AGC.
- Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor yn adrodd ar unrhyw newidiadau a gynlluniwyd neu a gytunwyd o ran rheoliadau a'r gyfraith ac yn derbyn esboniad o'r goblygiadau a chynllun ar gyfer eu rhoi ar waith /sicrwydd.

## SR2 – Mae trefniadau cadarn ar waith i reoli risg a rhoi sicrwydd

Mae ClwydAlyn yn cydymffurfio'n llwyr â'r safon rheoleiddio hwn ac mae ganddo dystiolaeth gadarn o gydymffurfio.

Mae tystiolaeth o gydymffurfio yn cynnwys:

- Mae'r Bwrdd yn adolygu mapiau risg ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r Pwyllgor yn adolygu risgiau priodol ddwywaith y flwyddyn ac yn defnyddio dull tri llwybr posibl.
- Derbyniodd y Bwrdd a'r Pwyllgor hyfforddiant rheoli risg ym mis Tachwedd 2024.
- Datblygwyd mapiau risg strategol a gweithredol newydd gan y Bwrdd gan gynnwys pennu awydd am risg ar gyfer cynllun corfforaethol newydd – cymeradwywyd gan y Bwrdd ar 20 Mai 2025.
- Cyflwynwyd trefn newydd i adrodd ar Rybuddio, Sicrhau a Chynghori ('y 3A: Alert, Assure and Advise') o'r pwyllgorau i'r bwrdd er mwyn cryfhau'r dull o adrodd ar risg, sicrwydd a chodi ymwybyddiaeth.
- Cymeradwywyd cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2025/2026 gan y Pwyllgor Sicrwydd ar 3 Mawrth 2025, yn dilyn trafodaethau gyda'r tîm gweithredol a thrafodaeth breifat gyda'r Pwyllgor.
- Adolygwyd Erthyglau Is-gwmnïau'r Gymdeithas ym mis Gorffennaf 2021 a rhoddwyd Cytundeb Rhyng-grwpiau ar waith. Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd chwarterol ar gyfer yr holl is-gwmnïau gweithredol.
- Adolygwyd a chymeradwywyd Cytundeb Fframwaith ClwydAlyn/TirTai gan y Bwrdd ar 20 Mai 2025.
- Yn achos y cwmni menter ar y cyd Onnen, mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariadau rheolaidd ac mae Bwrdd ClwydAlyn yn cymeradwyo'r Datganiadau Ariannol blynyddol.
- Cymeradwywyd gweithdrefn Ymateb i Achos Seiberddiogelwch gan y Pwyllgor Sicrwydd ar 2 Medi 2024.
- Cyflwynwyd adroddiad Archwiliad mewnol ar seiberddiogelwch i'r Pwyllgor Sicrwydd ym mis Gorffennaf 2024. Cynhaliwyd digwyddiad ymarfer ymateb i achos seiber fusnes a pwyntiau dysgu – a drefnwyd yn allanol (gan y tîm seiber arbenigol RSM) ym mis Mawrth 2025. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor Sicrwydd ym mis Gorffennaf 2025.
- Adolygwyd y Polisi Diogelu Data yn y Pwyllgor Sicrwydd ar 3 Mawrth 2025 ac mae unrhyw ddigwyddiadau yn cael eu hadrodd yn flynyddol.
- Mae'r holl staff, aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor yn derbyn hyfforddiant GDPR (bob dwy flynedd) a Seiberddiogelwch (bob tair blynedd).
- Mae cynlluniau parhad Busnes cynhwysfawr yn eu lle ar gyfer y Pencadlys a phob cynllun Gofal Ychwanegol a Gofal Cysgodol ac maent yn cael eu hadolygu bob chwe mis.

## SR3 – Darperir gwasanaethau o ansawdd uchel i denantiaid

Mae ClwydAlyn yn cydymffurfio'n llawn â'r safon rheoleiddio hwn. Rydym yn bwriadu gwella ein cydymffurfiaeth drwy gymryd camau i gynyddu cyfraddau casglu data EDI am

breswylwyr a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer meysydd i'w newid i ddarparu gwasanaeth gwell.

Mae ein tystiolaeth o gydymffurfiaeth yn cynnwys:

- Caiff bodlonrwydd preswylwyr ei asesu'n annibynnol ddwywaith y flwyddyn gan Acuity ac ar hyn o bryd mae'r holl fesurau yn dangos ein bod yn perfformio yn y chwartel uchaf neu ganolig.
- Mae cwestiynau am werth cymdeithasol yn cael eu haesu'n annibynnol ddwywaith y flwyddyn gan Acuity.
- Mae arolygon bodlonrwydd trafodion yn ymwneud gwaith trwsio, achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi dod i ben, addasiadau, cartrefi newydd, cwynion, gosodiadau anghenion cyffredinol newydd yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Preswylwyr. Mae gweithdai a gweithgorau gyda phreswylwyr yn ystyried ac yn argymell meysydd i'w gwella a'u newid.
- Arolygon diweddar dirybudd gan AGC o wasanaethau wedi'u rheoleiddio – roedd pob maes yn cydymffurfio a chafwyd tystiolaeth o wasanaethau o ansawdd da wedi'u teilwra i anghenion unigol.
- Mae comisiynwyr awdurdodau lleol yn archwilio gwasanaethau Grant Cymorth Tai a'r canlyniadau. (14 gwasanaeth gyda chontractau gwerth £4.3m yn eu lle). Cafwyd tystiolaeth o berfformiad da a arweiniodd at ymestyn contractau a cheisiadau i ddarparu gwasanaethau newydd.
- Derbyniwyd achrediad annibynnol gan Cymorth i Ferched Cymru am ansawdd gwasanaethau Trais Domestig
- Doedd dim achosion o droi pobl allan i sefyllfa o ddigartrefedd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf ac mae ôl-ddyledion wedi gostwng 0.68% o 4.19% yn 2023-2024 i 3.51% yn 2024-2025.
- Roedd 76% o'r holl eiddo a gafodd eu gosod yn ystod 24/25 er mwyn lliniaru digartrefedd.
- Cytunodd y pwyllgor preswylwyr ar ein safonau gwasanaeth - "Ein Haddewid" a mae hyn yn cael ei adrodd i breswylwyr yn flynyddol. Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol i roi gwybod am ein perfformiad ac mewn llythyr yn rhoi gwybod am gynnydd blynyddol yn y rhenti.

## SR4 – Caiff tenantiaid eu grymuso a'u cefnogi i lywio a dylanwadu ar gynllun gwasanaethau a'r ffordd y cânt eu darparu

Mae ClwydAlyn yn cydymffurfio'n llawn â'r safon rheoleiddio hwn ac mae ganddo dystiolaeth dda i ddangos hyn. Er bod gwasanaethau digartrefedd yn cefnogi 200 o breswylwyr yn unig (3% yn unig o'n haelwydydd), credwn y gallwn wella ar ein dulliau adrodd drwy'r strwythur llywodraethu ar effeithiau a chanlyniadau i breswylwyr yn ein gwasanaethau digartrefedd. Trwy ymgynghori â phreswylwyr i lunio'r hunanasesiad hwn, nodwyd cam gweithredu er mwyn gwella a datblygu ein tudalennau gwe cymunedol.

Mae ein tystiolaeth o gydymffurfio yn cynnwys:

- Lluniwyd Strategaeth Cynnwys Preswylwyr ar y cyd â phreswylwyr a TPAS a chymeradwywyd y strategaeth gan y bwrdd a'r pwyllgor preswylwyr ym mis Ebrill 2020 a'i diweddaru ym mis Mawrth 2024. Mae sawl opsiwn ar gael ar gyfer ymgysylltu, gan gynnwys rolau aelodau'r bwrdd, pwyllgor preswylwyr yn cynnwys naw preswyliwr (rhan o'r strwythur llywodraethu ffurfiol), adolygiad annibynnol chwarterol o'r dull o ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â phreswylwyr. Hefyd, mae 177 o breswylwyr yn aelodau o'n grŵp "Dylanwadwch arnom ni" sy'n rhoi sylwadau ac hadborth ar bob math o bolisïau a meysydd i'w newid a'u gwella.
- Mae Model Polisi Cwynion cadarn yn cynnwys dysgu a gwella yn cael ei adrodd gerbron y Bwrdd a'r Pwyllgor Preswylwyr bob blwyddyn. Mae dull tryloyw o adrodd am gwynion (Mawrth 2025) a darparwyd iawndal am fethiannau gwasanaethau a gwersi a ddysgwyd.
- Cynhaliwyd Panel Cwynion chwarterol i adolygu'r broses gwyno gan sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd gyson a theg. Mae'r panel yn cynnwys aelodau craidd o'r Pwyllgor Preswylwyr, gwirfoddolwyr #Dylanwadwch a Swyddogion ClwydAlyn. Mae'r grŵp hefyd yn ystyried ac yn cyflwyno argymhellion yn ymwneud â chwynion i'r Pwyllgor Preswylwyr.
- Mae preswylwyr wedi chwarae rhan lawn i ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol newydd drwy fynychu diwrnodau strategaeth gyda'r Bwrdd a sesiynau ffocws i glywed lleisiau nad ydynt yn cael eu clywed yn ein cynlluniau byw â chymorth.
- Ceir tystiolaeth gadarn o lais y preswyliwr yn ein cynlluniau adolygu polisïau a gwella gwasanaeth, (gweler yr enghreifftiau uchod yn y paragraffau rhagarweiniol ar ymgysylltu â phreswylwyr).
- Cafodd y broses Pryderon Preswylwyr ei harchwilio gan RSM ym mis Mehefin 2024.

## SR5 – Mae rhenti a thaliadau gwasanaeth yn fforddiadwy i denantiaid presennol a darpar denantiaid

Mae ClwydAlyn yn cydymffurfio'n llawn â'r safon rheoleiddio hwn.

Mae ein tystiolaeth o gydymffurfio yn cynnwys:

- Mae Polisi Rhenti Fforddiadwy yn ei le a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mai 2024; cafodd ei ddatblygu gyda phreswylwyr a chaiff ei adolygu'n flynyddol i asesu a yw'n dal i fod yn addas i'r diben o ystyried ffactorau allanol.
- Cynhaliwyd rhaglen adolygu taliadau gwasanaeth gyda phreswylwyr a chafodd taliadau gwasanaeth eu gostwng ar draws sawl cynllun.

## SR6 – Mae gan y sefydliad ddull strategol o ymdrin â gwerth am arian sy'n llywio ei holl gynlluniau a gweithgareddau

Gall ClwydAlyn ddangos ei fod yn cydymffurfio'n llawn â'r safon rheoleiddio hwn.

Mae tystiolaeth o gydymffurfio yn cynnwys:

- Mae ClwydAlyn wedi paratoi'n dda ar gyfer rhoi deddfwriaeth Caffael ar waith yn 2025
- Mae Strategaeth Gwerth am Arian yn ei lle (6 Medi 2022), a chyflwynwyd adroddiad Gwerth am Arian blynyddol i'r Bwrdd (23 Mai 2024).
- Lluniwyd Adroddiad Amgylcheddol, Cymdeithasol, Llywodraethu blynyddol, a mabwysiadwyd y Safon Adrodd ar Gynaliadwyedd yn fuan.
- Cymeradwyodd y Bwrdd y strategaeth Gwerth Cymdeithasol ar 28 Mawrth 2023 a chyflwynwyd adroddiad blynyddol ar gynnydd i'r Bwrdd.
- Llwyddwyd i gyflawni targed gweithredu o 20% bob blwyddyn a chaiff ei fonitro gan y bwrdd ym mhob cyfarfod.
- Mae meini prawf ariannol cadarn yn eu lle ar gyfer cyfleoedd datblygu i ystyried gwerth am arian.

## SR7- Mae'r cynllunio a'r rheolaeth ariannol yn gadarn ac yn effeithiol

Mae ClwydAlyn yn credu ei fod yn cydymffurfio â'r safon hwn a bod un maes lle gallai wella ei gydymffurfiaeth. Mae'r Bwrdd wedi cytuno i brofi'r Cynllun Gwydnwch yn erbyn y senarios profi straen ac i adrodd am hyn i'r Pwyllgor Sicrwydd.

Mae tystiolaeth o gydymffurfio yn cynnwys:

- Cymeradwyodd y Bwrdd y Gyllideb ar 4 Chwefror 2025.
- Mae perfformiad ariannol yn cael ei adrodd i'r Bwrdd gan gynnwys dadansoddiad o berfformiad yn ôl y gyllideb, gan gynnwys is-gwmnïau.
- Trafodwyd rhagdybiaethau'r Cynllun Busnes yn y Pwyllgor Sicrwydd ar 3 Mawrth 2025 a chymeradwywyd y Cynllun Busnes yng nghyfarfod y Bwrdd ar 18 Mawrth 2025, ynghyd â phrofi straen a'r cynllun gwydnwch.
- Cymeradwyodd y Bwrdd Strategaeth y Trysorlys a'r Polisi Trysorlys ar 23 Gorffennaf 2024. Caiff y strategaeth ei hadolygu'n flynyddol gan ymgynghorwyr annibynnol ac adroddir ar hyn i'r Bwrdd.
- Mae Rheolau Aur yn cael eu pennu ar gyfer rheoli cyllid ac yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod. Rydym yn perfformio'n dda iawn yn erbyn cyfamodau.
- Mae monitro ariannol allanol cadarn gan asiantaethau sgorio credyd yn ychwanegu trosolwg gan drydydd parti.
- Darperir adroddiad sicrwydd archwilio allanol blynyddol.

## SR8 – Caiff asedau a rhwymedigaethau eu rheoli'n dda

Mae ClwydAlyn yn credu ei fod yn cydymffurfio â'r safon hwn ond gallai wella ei gydymffurfiaeth ymhellach drwy ddatblygu cofrestr gwella Asedau a Rhwymedigaethau.

Mae tystiolaeth o gydymffurfio yn cynnwys:

- Cymeradwywyd y Gofrestr Asedau a Rhwymedigaethau gan y Pwyllgor Sicrwydd ar 2 Medi 2024. Ar 2 Rhagfyr 2024 gofynnodd y Pwyllgor Sicrwydd am adolygiad o'r Gofrestr Asedau a Rhwymedigaethau.

- Cynhaliodd ein Harchwilwyr Mewnol adolygiad o'r gofrestr Asedau a Rhwymedigaethau ym mis Chwefror a byddant yn adrodd i'r Pwyllgor Sicrwydd ym mis Gorffennaf.
- Cymeradwywyd y Polisi Gwaredu Cartrefi a Thir gan y Pwyllgor Eiddo ar 16 Ionawr 2023.
- Roedd tua 600 eiddo heb eu cofrestru ym mis Awst 2023 ond mae'r nifer bellach wedi gostwng i 200 ym mis Mawrth 2025. Mae holl wybodaeth y Gofrestrfa Tir ar deitlau wedi cael ei diweddaru ar CX Housing i symleiddio'r broses o gael eiddo ar gyfer eu hariannu.

## SR9 – Mae'r sefydliad yn darparu llety diogel o ansawdd uchel

Mae ClwydAlyn yn credu ei fod yn cydymffurfio'n llawn â'r safon hwn a bod tystiolaeth dda yn ei lle.

Mae'r dystiolaeth o gydymffurfio yn cynnwys:

- Cymeradwyodd y Bwrdd a'r Pwyllgor y strategaeth Rheoli Asedau (18 Mawrth 25), datganiad polisi SATC (18 Mawrth 2025); Strategaeth yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd (18 Mawrth 2025)
- Addaswyd y cynllun busnes i gyd-fynd â'r angen i fodloni SATC2 a gwneud y mwyaf o lefelau buddsoddi tra'n cynnal cyfamodau ariannol.
- Mae data da ar gael am gyflwr stoc.
- Mae cyfraddau perfformiad o ran cydymffurfiaeth eiddo yn uchel ac maent yn cael eu harchwilio'n annibynnol.
- Cyflwynir adroddiadau ar EPC i'r Pwyllgor Eiddo.
- Cyflwynir adroddiadau ar faterion yn ymwneud â pherfformiad eiddo gwag i gyfarfodydd y Bwrdd.
- Cyflwynir adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Eiddo ar berfformiad y gwasanaeth trwsio a chynnal: cwynion a pherfformiad yn ymwneud â thamprwydd, llwydni ac anwedd, a pherfformiad y rhaglen buddsoddiad asedau.
- Mae Strategaeth Dwf (Ddatblygu) yn ei lle a chyflwynir adroddiadau perfformiad rheolaidd i'r Bwrdd a'r Pwyllgor.
- Mae'r broses o adrodd ar gartrefi newydd, ar ôl iddynt gael eu cwblhau, wedi cael ei gwella yn dilyn cais gan y Pwyllgor Eiddo er mwyn gwella dysgu.
- Mae'r holl adeiladau newydd yn cydymffurfio â safonau EPC A a DQR o leiaf.
- Mae technolegau newydd yn cael eu treialu a'u mesur i wella gwres fforddiadwy a rhoi sylw i damprwydd, llwydni ac anwedd, ynghyd â monitro unrhyw risgiau yn ofalus (yn y Pwyllgor Eiddo).
- Mae mesurau diogelwch tân ychwanegol wedi cael eu gosod mewn llawer o gynlluniau (sy'n rhagori ar isafswm y safonau cyfreithiol).
- Gwnaethom dderbyn gwobr genedlaethol am ein dull arloesol o gyfathrebu â thenantiaid ar fater cydymffurfiaeth eiddo.
- Rydym wedi gweithredu fel hwb datgarboneiddio Llywodraeth Cymru, ac rydym yn cael ein cydanbod fel arweinydd yn y maes hwn.

## Datganiad gan Gadeirydd Bwrdd ClwydAlyn

Fel Cadeirydd Bwrdd ClwydAlyn gallaf gadarnhau fod y Bwrdd wedi dilyn proses hunanwerthuso gadarn yn ôl y safonau rheoleiddio. Mae hyn wedi cynnwys cynnal gweithdy gyda'r Pwyllgor Preswylwyr ar 30 Ebrill 2025, darparu adborth i'r Bwrdd ac aelodau'r Pwyllgor yn adolygu'r hunanasesiad drafft cychwynnol mewn gweithdy ar 8 Mai 2025, a'r Bwrdd yn cymeradwyo'r hunanasesiad yn derfynol yn ei gyfarfod ar 20 Mai 2025.

Rydym yn sefydliad uchelgeisiol sydd bob amser yn gweithio i wella ein perfformiad a'r canlyniadau i'n preswylwyr fel Cymdeithas Dai gofrestredig. Rydym wedi datblygu Cynllun Gwella Cydymffurfiaeth (gweler isod) yn nodi camau gweithredu ynghyd ag amserlenni a swyddogion atebol. Bydd y Bwrdd yn monitro cynnydd yn erbyn y cynllun hwn yn chwarterol drwy gydol 2025/2026.

CMcGuinness

Cris McGuinness
Cadeirydd ClwydAlyn

## Cynllun gwella cydymffuriaeth ClwydAlyn

| Cam gweithredu a safon rheoleiddio perthnasol | Amserlen | Swyddog Gweithredol Atebol | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| **SR1**<br>Gwella'r defnydd o data EDI staff, gan gynnwys dadgyfuno gwybodaeth yn adroddiadau'r gweithlu yn ôl nodweddion gwarchodedig a rhoi'r broses Penderfyniadau Cynhwysol ar waith wrth ddatblygu strategaethau a pholisïau, gan gynnwys prosiectau allweddol yn ymwneud â'r gweithlu. | Mawrth 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl, Diwylliant a Chyfathrebu | Gallu dangos bod ein tîm staff yn adlewyrchu amrywiaeth y gymuned o breswylwyr; nad yw ein polisïau a'n canllawiau cyflogaeth yn cael effaith niweidiol ar grwpiau penodol o bobl. Yn ogystal, sicrhau bod gennym fesurau a chymorth yn eu lle i helpu staff â nodweddion gwarchodedig. |
| **SR1**<br>Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y Strategaeth Ddata a'i roi ar waith | Gorffennaf 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau | Sirhau bod y camau ymarferol a fydd yn arwain at y Strategaeth Ddata a gymeradwywyd yn ddiweddar yn cael eu darparu a'u cyfathrebu i'r Bwrdd. |
| **SR1**<br>Llunio Cofrestr Risg Cydymffurfiaeth Gyfreithiol a Rheoleiddiol i'w monitro gan y Pwyllgor Sicrwydd | | Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau | Er mwyn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd o ran cydymffurfiaeth gyfreithiol a rheoleiddiol. |
| **SR3** Gwella ein dull o gasglu a defnyddio data EDI preswylwyr, gan gynnwys gweithio gyda'r Pwyllgor Preswylwyr i wella dulliau o gasglu data am breswylwyr, dadgyfuno adroddiadau bodlonrwydd preswylwyr ac adborth arall yn ôl nodweddion gwarchodedig tra'n rhoi'r broses Penderfyniadau Cynhwysol ar waith wrth ddatblygu strategaethau a pholisïau ar gyfer gwasanaethau preswylwyr | Mawrth 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Tai | Er mwyn llywio'r broses o wella'r gwasanaeth a dangos nad oes gwahaniaethu, bod nodweddion gwarchodedig wedi'u deall, a bod gwasanaethau yn hygyrch ac wedi'u cynllunio o amgylch anghenion preswylwyr, gan sicrhau bod cyn lleied o rwystrau â phosibl yn eu hwynebu wrth gael mynediad i'n gwasanaethau. |
| **SR4**<br>Gwella canlyniadau adrodd am wasanaethau ar gyfer cynlluniau byw â chymorth | Mawrth 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal a Chymorth | Sicrhau bod Bwrdd ClwydAlyn yn gallu gweld y canlyniadau i'n preswylwyr sy'n byw mewn cynlluniau Byw â Chymorth, a'r effaith gadarnhaol mae ein gwasanaethau yn eu cael ar unigolion sy'n wynebu digartrefedd. |

| Cam gweithredu a safon rheoleiddio perthnasol | Amserlen | Swyddog Gweithredol Atebol | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| **SR4**<br>Datblygu rhaglen beilot gychwynnol i brofi gwerth "Tudalennau gwe cymunedol." | Mawrth 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Tai | Cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r berthynas rhwng swyddogion a phreswylwyr, rhannu gwybodaeth a gwella cymunedau. |
| **SR7**<br>Profi'r Cynllun Gwydnwch yn erbyn senarios profi straen | Gorffennaf 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau | Rhoi sicrwydd i'r Bwrdd fod y cynllun cydnerthedd yn ddigonol i liniaru yn erbyn y risg o fethiant ariannol. |
| **SR8**<br>Datblygu cynllun gwella cofrestr Asedau a Rhwymedigaethau | Awst 2026 | Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau | Sicrhau bod ein cofrestr Asedau a Rhwymedigaethau yn dal i ddatblygu, a rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod camau gwella yn cael eu cynllunio a'u cyflawni. |